## P-04-459 Cysylltiad rheilffordd uniongyrchol o Faes Awyr Caerdydd i ganol Caerdydd a gorllewin Cymru

**Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ddatblygu cysylltiad rheilffordd uniongyrchol o Faes Awyr Caerdydd i ganol Caerdydd a gorllewin Cymru.

Mae angen mawr am linell reilffordd gyflym uniongyrchol o Faes Awyr Caerdydd i orsaf drenau Caerdydd Canolog (ac i orllewin Cymru) fel bod y gwasanaethau a□r ddarpariaeth briodol ar gael yn ein Maes Awyr Cenedlaethol ar gyfer ymwelwyr cenedlaethol a rhyngwladol. Mae gorsaf reilffordd yn y Rhws eisoes, sy□n llai na milltir o□r maes awyr. Mae□n gyfle na ddylid ei golli i estyn y llinell i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd fel y gall teithwyr o bob rhan o□r byd neidio yn syth ar ôl glanio ar drên sy□n mynd â nhw i brifddinas Cymru a thu hwnt i hynny.

**Prif ddeisebydd:** Cymru Sofren

**Ysytyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor:** 19 Mawrth 2013

**Nifer y llofnodion:** 39